# Talgarth

## Ymgynghoriad Drafft

Powys

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PREPARED BY OWEN DAVIES CONSULTING

HYFRED 2023



# Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Talgarth

Mae Talgarth yn dref farchnad fach, hynafol oedd erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ganolfan ar gyfer masnach a busnes ac yn enwog am ei ffeiriau ceffylau. Mae Talgarth yn parhau i fod yn dref weithgar fywiog â marchnad da byw sy'n darparu ffocws ar gyfer amaethyddiaeth a'r gymuned wledig ehangach. Mae'r dref hefyd yn gweithredu fel y ganolfan wasanaeth leol ar gyfer cymunedau cyfagos sy'n defnyddio'r ysgol gynradd, y feddygfa, fferyllfa, llyfrgell ac amrediad o gyfleusterau cymunedol pwysig a chlybiau chwaraeon niferus.


Mae canol tref Talgarth yn fach â llond llaw o siopau a gwasanaethau sy'n dibynnu'n bennaf ar siopa o ddydd i ddydd gan y gymuned leol ac ychydig o fasnachwyr arbenigol annibynnol sy'n helpu i ddenu ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal. Mae cyfleusterau hamdden a diwylliannol yn ychwanegu at yr amrywiaeth o weithgareddau ac mae'r digwyddiadau canol tref blynyddol yn helpu i gynnal economi ymwelwyr tymhorol pwysig, gan gryfhau'r dref fel cyrchfan i ymwelwyr sy'n archwilio'r Mynyddoedd Du.

Dros ddegawdau diweddar mae'r dref wedi wynebu sawl her adfywio gan gynnwys cau ysbyty Canolbarth Cymru, adeiladu ffordd osgoi'r dref, ac adfer ac agor Melin hanesyddol y dref. Ail-leoli'r Co-op ar hyn o bryd i safle newydd ar ymyl y dref yw'r diweddaraf mewn cyfres o brofion mawr i fywiogrwydd canol y dref.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn ('y Cynllun') yn cael ei baratoi â chefnogaeth rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog NPA a Chyngor Tref Talgarth. Mae gan y Cynllun ffocws ar ganol y dref. Ei bwrpas yw mynd i'r afael â'r heriau presennol, adeiladu ar gynlluniau presennol a'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef eisoes i helpu adfywio Talgarth, i amlinellu gweledigaeth ar gyfer dyfodol canol y dref ac i ddarparu cynllun buddsoddi i helpu cyflawni'r weledigaeth hon.



# Dros y degawdau diwethaf mae'r dref wedi wynebu sawl her adfywio



# Y Cynllun Drafft

## Rydym yn ymgynghori ar y Cynllun drafft hwn yn dilyn ymchwil lleol, cyfarfodydd â rhanddeiliaid ac ymgynghoriadau niferus â sefydliadau lleol gan gynnwys y Cyngor Tref a Chyngorwyr Sir Powys.



Gwahoddir y gymuned leol, busnesau a sefydliadau i wneud sylwadau ar y syniadau canlynol. Rydym am ddeall eich blaenoriaethau a'r lefel o gymorth ar gyfer newidiadau a gwelliannau cyn cymryd unrhyw cynigion yn eu blaenau. Bydd y Cynllun terfynol yn lasbrint ar gyfer arwain buddsoddiad a denu cyllid am y 5+ mlynedd nesaf.

Powys


Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwneud Canol Y Dref Yn Lle Gwych

04 Mae lleoedd hanesyddol fel Talgarth wedi bod yn ganolbwynt i gymunedau am ganfrifoedd, ac mae hyn yn cyfrannu at eu hunaniaeth unigol ac un yr ardal ehangach a'i phoblogaeth. Mae lleoedd yn ein ffurfio ac rydym yn parhau i'w ffurfio hwy. Mae'r cynllun hwn yn darparu'r cyfle i helpu dathlu a thyfu nodweddion gorau Talgarth tra'n ailgryfhau'r rhai llai annwyl. Ac mae gan ganol y dref hefyd rôl leol i'w chwarae mewn helpu i fynd i'r afael â heriau rhyng-gysylltiedig yr argyfwng hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

Mae angen i le gwych hefyd gyflawni ar sawl ffrynt ar yr un pryd. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn disgrifiio'r chwe thema allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud lle gwych.



# Prif Fater a Chyfleoedd

Er gwaethaf llawer o heriau, mae Talgarth yn mwynhau cryfderau sylweddol a llawer ohonynt wedi atgyfnerthu ei enw da fel cyrchfan ymwelwyr a phorth i'r Mynyddoedd Du. Yn y blynyddoedd diweddar mae'r dref wedi datblygu cymeriad 'tref o erddi' unigryw ac mae'n amlwg fod cymuned leol angerddol. Mae'r gweithgareddau niferus yn y gymuned, ymdeimlad cryf o amgylcheddaeth ac amrediad o sefydliadau diwylliannol a chwaraeon yn darparu'r sylfaen ar gyfer gweithgareddau ar draws y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd ail-leoli'r Co-op yn newid cymeriad canol y dref yn sylweddol yn ogystal â'r lefel o sŵn traed a gweithgaredd.



# Mae cryfderau a gwendidau canol y dref yn cynnwys:

## Defnyddiau a gweithgaredd

- Bach eto'i gyd yn amrywiol, â chymysgedd o siopau hanfodol, busnesau arbenigol annibynnol, cyfleusterau diwylliannol a chymunedol.
- Ychydig iawn o adeiladau gwag, gan arwain at ychydig o gyfleoedd ar gyfer twf ac ehangu busnes newydd.
- Mae adeiladau pwysig gwag fel yr Hen Ysgol yn gofyn am ddefnyddiau cynaliadwy economaidd, a chymunedol.
- Amrediad trawiadol o gyfleusterau ymwelwyr gan gynnwys toiledau cyhoeddus am ddim, Canolfan Twristiaid, Amgueddfa a melin hanesyddol.
- Oriau agor busnes anghyson – rhai dyddiau'r wythnos mae mwy o fusnesau wedi cau na sydd ar agor.
- Economi nos heb ei datblygu.

## Cyrchfan a hunaniaeth

- Canol tref ddeniadol a hanesyddol a llawer o nodweddion sy'n dal y llygad.
- Yn cael ei chydnabod ar gyfer mynediad at y Mynyddoedd Du ac yn ganolfan ar gyfer cerdded, seiclo a gleidio.
- Arwyddo a hyrwyddo gwael o'r ffyrdd strategol sy'n pasio trwy'r dref.
- Digwyddiadau a gwyliau tymhorol adnabyddus sy'n amlygu cryfderau'r dref (e.e. Gŵyl Gerdded a Gŵyl y Mynyddoedd Du).
- Presenoldeb ar-lein wedi'i danddatblygu a marchnata bach a'r angen am frand a hunaniaeth unedig i Dalgarth.

## Traffig a Symudiad

- Canol tref y mae modd ei gerdded, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r mannau cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i gerbydau a pharcio.
- Strydoedd hanesyddol â phalmentydd cul a hygyrchedd gwael i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gan gynnwys pobl â phroblemau symudedd.
- Mae'r maes parcio yn brin o ganfod ffordd yn reddfol i ganol y dref.
- Mae'r Farchnad Da Byw yn profi prinder parcio ar y safle ar ddiwrnodau marchnad.
- Yr angen am bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus wedi'u lleoli'n ganolog.

## Cyflogaeth

- 'Tref sy'n gweithio' ag ardaloedd busnes a chyflogaeth pwysig yn cynorthwyo'r canol – mae angen diogelu a thyfu'r ardaloedd hyn i gynnal sylfeini economi'r dref.

## Byw

- Atal y golled anghynaliadwy o gartrefi i osodiadau tymor byr a helpu i gynnal poblogaeth iau a gweithredol yn economaidd.
- Mae cyfleoedd yn bodoli i drosi adeiladau ac adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd yn agos at y canol.
- Sicrhau bod yr 'uchdwr' sy'n tynnu'r ffosffad yn ddigonol i ganiatáu datblygiadau preswyl newydd tra'n ateb rhwymedigaethau i ddiogelu dalgylch Afon Gwy.

## Dysgu

- Mae twf Coleg y Mynydd Du wedi creu angen am amrediad o gyfleusterau a llety myfyrwyr wedi'u lleoli'n ddelfrydol yn agos at ac o fewn y dref.

# Prif Amcanion

Bydd ail-leoli'r Co-op yn newid ymddangosiad y canol ac yn lleihau sŵn traed, traffig, a gweithgaredd yn y canol. Er bod hyn yn bryder, ac yn fater sylfaenol ar gyfer y Cynllun hwn, mae'n gyfle hefyd i ailarchwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda a ddim cystal ar hyn o bryd yn Nhalgarth, tra'n adnabod sut y gallai'r dref ddymuno denu buddsoddiad newydd yn y dyfodol. Mewn ymateb, prif amcanion y Cynllun yw gwneud canol y dref yn:


1. Fwy deniadol i fusnesau sy'n cynhyrchu sŵn traed newydd, defnyddiau cymunedol ac addysgol
2. Haws i ddarganfod, llywio, cerdded, a mynd ar olwynion drwyddi
3. Wedi'i chynllunio'n well, yn wyrddach ac yn fwy bywiog yn ystod y dydd a'r nos
4. Yn edrych ymlaen â seilwaith Cerbydau Trydan a digidol modern
5. Wedi'i hyrwyddo'n well â phresenoldeb unedig ar-lein

# Ardaloedd Cyflawni'r Prosiect

Mae pedair ardal cyflawni'r prosiect sy'n darparu ffocws ar gyfer y Cynllun, pob un yn cyfuno sawl cynnig â'r potensial i drawsnewid y dref. Mae'r Cynllun hefyd yn adnabod sawl gweithred trawsbynciol sy'n gymwys i ganol y dref yn gyfan ac yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion.



1. Y Sgwâr
2. Ffordd Bronllys a'r porth
3. Stryd Fawr, maes parcio a'r porth
4. Lôn Gefn a'r Hen Ysgol




## Llif traffig canol y dref

Mae sawl cynnig o fewn y Cynllun yn adnabod cyfleoedd i wella'r parth cyhoeddus gan ganiatáu felly defnydd cynyddol o'r mannau tu allan ar gyfer busnesau, ymwelwyr, defnyddiau cymunedol a chynlluniau gwyrddu.

Gellir cyflawni gwelliannau pwysig tra'n cynnal y llifau traffig dwy ffordd presennol trwy'r canol. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd i gymryd ymagwedd fwy uchelgeisiol gan ddefnyddio llif traffig un ffordd a ffyrdd sy'n culhau i'w lled lleiaf ar gyfer cerbydffordd sengl a lledu ardaloedd cerddwyr. Nid yw union fanylion a dichonoldeb system un ffordd wedi cael eu harchwilio'n fanwl a byddai angen eu harchwilio ac ymgynghori arnynt. Fodd bynnag, mae'r Cynllun wedi adnabod un ffordd dangosol fel opsiwn, a thraffig yn dod i mewn o gyfeiriad maes parcio'r Stryd Fawr ac yn mynd allan trwy Ffordd Bronllys.

# Y Sgwâr

Dyma graidd hanesyddol y canol ac mae'n ganolbwynt ar gyfer busnesau, adeiladau dinesig, a digwyddiadau cymunedol. Bydd ail-leoli'r Co-op yn newid yr ymddangosiad a'r cymeriad trwy greu adeilad amlwg gwag, gan leihau maint cerbydau danfon, symiau traffig a galw am barcio. Mae'r cyfle yn bodoli i ailddychmygu'r Sgwâr er mwyn iddo gefnogi busnesau newydd a rhai sy'n bodoli, denu sŵn traed newydd ac adeiladu ar ei gryfderau fel canolfan hanesyddol ddeniadol:


## Gweithredoedd



- → Cynyddu'r swm o le ar gael i gerddwyr â phalmentydd lletach, rhagor o gyfleoedd ar gyfer seddi, plannu, defnydd busnes a gweithgareddau cymunedol.
- → Lledu'r ardal y tu allan i'r Felin i ddarparu cyfleoedd ar gyfer byrddau a chadeiriau sy'n cefnogi'r caffi a'r becws a chryfhau ei weladwyedd cyffredinol.
- → Lledu'r palmant y tu allan i'r Ganolfan Twristiaid ar gyfer mynediad a defnydd diogelach i gerddwyr.
- → Adfer Liverpool House a London House gan ddefnyddio cynllun a deunyddiau blaen siop traddodiadol a defnyddio lliwiau i gysylltu adeiladau a brandio'r dref.
- → Ailbwrpasu Liverpool House, gan greu unedau busnes llai mwy apelgar â llety byw uwch ben.
- → Opsiynau ar gyfer naill ai traffig dwy ffordd neu un ffordd.

## Gweledigaeth ar gyfer y Sgwâr

A



llif traffig presennol

B



llif traffig un ffordd








# Gweledigaeth Sgwâr y Dref










# Ffordd Bronllys Parc Glan Yr Afon

Mae'r ardal hon yn borth naturiol deniadol ac wedi'i leoli'n ffafriol i ddenu sylw ymwelwyr sy'n teithio trwy Dalgarth o Ganolbarth Cymru a Swydd Henffordd. Mae ail-leoli'r Co-op i Ffordd y Gelli Gandryll yn cynyddu pwysigrwydd yr ardal a'r angen i gryfhau'r cysylltiad rhwng y canol, Ffordd y Gelli Gandryll, yr ysgol, y llyfrgell a meddygon. Y cyfle yw i greu tir parc glan yr afon mwy a mwy unigryw sy'n chwarae i gryfderau 'tref o erddi' a chysylltiadau Talgarth â chynaliadwyedd.



## Gweithredoedd

- → Culhau'r ffordd i greu cyfle ar gyfer parc glan yr afon o ansawdd uchel a gofod gwyrdd sy'n lledu – denu sŵn traed, cynyddu amser aros ac annog lefelau helaethach o weithgareddau cymunedol.
- → Cyfle i gyflwyno nodweddion naturiol a chwareus sy'n apelio at yr ifanc a theuluoedd.
- → Creu lleoliad mwy parchus ar gyfer y gofeb ryfel.
- → Cyflwyno nodweddion draenio cynaliadwy, plannu brodorol, coed, a seddi.



Gweledigaeth Parc Glan yr Afon








# Gweledigaeth Parc Glan yr Afon




# Stryd Fawr

Mae'r Stryd Fawr draddodiadol yn parhau i ddirywio mewn pwysigrwydd fel ardal siopa, fodd bynnag mae ganddi'r potensial i gipio sŵn traed ychwanegol â chynnydd mewn niferoedd ymwelwyr yn cerdded o'r maes parcio i gyfeiriad y canol.

Y Stryd Fawr yw'r llwybr mwyaf uniongyrchol rhwng y prif faes parcio a'r Sgwâr, er bod palmentydd cul a thraffig dwy ffordd yn ei wneud yn llai deniadol a hawdd i symud drwyddo. Er bod cyfleoedd yn gyfyngedig, byddai cyflwyno traffig un ffordd yn caniatáu i bwysigrwydd ac apêl yr ardal i gael eu gwella.



## Gweithredoedd


→ Gwelliannau parth cyhoeddus i annog sŵn traed helaethach o gyfeiriad y maes parcio â'r budd o gefnogi busnesau'r Stryd Fawr. Trin yr ardal fel gofod cyhoeddus llyfn o ansawdd uchel yn cysylltu a'r Sgwâr.

→ Llifau traffig un ffordd yn caniatáu palmentydd lletach, hygyrchedd gwell, i bobl â phroblemau symudedd a gwelliannau i gyffordd Bell Street.

→ Mae un ffordd yn creu opsiwn i gynnwys swm bach ychwanegol ar barcio stryd.



Stryd Fawr bresennol



Gweledigaeth y Stryd Fawr

# Maes Parcio'r Stryd Fawr

Mae angen am arwyddion eglurach a mwy cyson ledled y dref sy'n cyfeirio ymwelwyr yn effeithiol i'r maes parcio trwy gylchfan y clwb rygbi tra'n osgoi traffig sy'n mynd drwodd yn y Sgwâr.

O fewn y maes parcio, mae arwyddion a gwybodaeth yn brin o eglurder i ymwelwyr sy'n chwilio am y canol. mae buddsoddiad yn ofynnol hefyd mewn pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus i annog teithwyr i ddefnyddio Talgarth fel man aros cyfleus a lle ar gyfer lluniaeth. Byddai gwefru Cerbydau Trydan wedi'i leoli'n ganolog yn helpu cydbwyso â'r cyfleusterau gwefru newydd wedi'u lleoli yn y Co-op.

Er bod y maes parcio am ddim ar hyn o bryd, mae posibilrwydd y gallai hyn newid yn y dyfodol i ddod â Talgarth yn unol â threfi ar draws Powys. Oherwydd bod ffocws y Cynllun ar reoli effeithiau ail-leoli'r Co-op ac adfywio tymor hir, byddai cyfnod o ras cyn i daliadau parcio gael eu hystyried yn caniatáu i effeithiau ail-leoli'r Co-op gael eu deall a mynd i'r afael â hwy. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys:

## Gweithredoedd

→ Arwyddion ffyrdd eglurach ar y ffyrdd sy'n dod i'r dref.

→ Arwyddion mwy greddfol i ymwelwyr yn cyfeirio ymwelwyr tuag at y canol trwy'r Stryd Fawr.

→ Gosod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan i ddenu ymwelwr ac annog ymweliadau hirach.

→ Trafod â Chyngor Sir Powys cyfnod o ras i welliannau adfywio ddod i rym cyn ystyried taliadau parcio.



Enghraifft o bwynt gwefru Cerbydau Trydan




Enghreifftiau o arwyddion ymwelwyr gofynnol ger mynedfa'r maes parcio

# Lôn Gefn A'r Hen Ysgol

Mae'r llwybr o'r Sgwâr a Lôn Gefn tuag at yr hen ysgol ac Eglwys Santes Gwenddolen yn cysylltu sawl adeilad pwysig â'r canol ac mae ganddo botensial i gael ei wella ag arwyddion treftadaeth a gwybodaeth ymwelwyr. Ymhellach, hen adeilad yr ysgol yw un o'r ychydig gyfleoedd o raddfa ger y canol sy'n gallu cyflawni sŵn traed ychwanegol sy'n cynhyrchu defnyddiau economaidd a chymunedol.



## Gweithredoedd

→ Archwilio cyfle i osod arwyddion llwybr treftadaeth.

→ Cefnogi ymchwiliadau ychwanegol i ailbwrpasu hen adeilad yr ysgol. Dylai ei ddefnydd yn ddelfrydol ddenu lefelau ychwanegol o weithgaredd economaidd a chymunedol, ysgogi sŵn traed i ganol y dref a chefnogi gweithgaredd trwy gydol y dydd/wythnos.



Yr Hen Ysgol

# Arwyddion Porth

Yn gyffredinol, mae arwyddion a gwybodaeth ochr ffordd i ymwelwyr ar gyfer canol y dref yn anamlwg ac yn ddryslyd. Er mwyn rhyng-gipio nifer helaethach o ymwelwyr mae angen am arwyddion twristiaeth brown a gwybodaeth i gael eu lleoli ger y prif byrth ar Ffordd Bronllys a'r Stryd Fawr. Mae angen i'r arwyddion hyrwyddo prif gyfleusterau ac atyniadau ymwelwyr y dref yn ofalus.




Enghraifft porth Ffordd Bronllys




Enghraifft porth y Stryd Fawr

# Rheoli Lle

Mae sawl gweithred y gellir eu cymryd i gynorthwyo'r sefydliadau a'r bobl sydd wedi ymrwymo i wneud canol tref Talgarth yn gyrchfan gwell ac wedi'i reoli'n well. Mae gweithredoedd yn cynnwys y ffordd mae'r dref yn cael ei hyrwyddo a'r buddsoddiad mewn seilwaith newydd a gwell a chasglu data i gynorthwyo gwneud penderfyniadau.






→ Gwella hyrwyddo'r dref â brand lle eglurach sy'n taflunio'r ddelwedd orau ac sy'n rheoli canfyddiadau am Dalgarth. Yn ogystal â bod yn ganolfan ar gyfer y Mynyddoedd Du, cerdded, seiclo, gleidio a threftadaeth, mae gan y dref sawl nodwedd ychwanegol e.e. tref o erddi, ysbryd cymunedol ac enw da ar gyfer amgylcheddaeth a ddylai gael ei hyrwyddo.

→ Yn absenoldeb gwefan i'r dref, sefydlu hunaniaeth ar-lein unedig o dan yr enw 'Dewch i Dalgarth', wedi'i gefnogi gan ddeunyddiau printiedig. Bydd yr hunaniaeth hon yn gwasanaethu fel ambarél ar gyfer marchnata a hyrwyddo popeth sydd gan y dref i'w gynnig, gan gynnwys digwyddiadau lleol a sefydliadau.

→ Annog busnesau i weithio gyda'i gilydd i greu patrwm cydlynol o oriau agor tymhorol sy'n annog pobl i ymweld ac estyn eu harhosiad.

# Trefi Clyfar A Seilwaith Digidol

Yn ogystal â dathlu ei hanes, dylai Talgarth edrych i'r dyfodol a chofleidio'r cysyniad o Dref Glyfar: lle sy'n defnyddio technoleg i gasglu data lleol sy'n cael eu defnyddio i ffurfio penderfyniadau. Gall gwella seilwaith digidol canol y dref ei wneud yn lle haws i ymweld ag ef ac yn lle mwy deniadol i dreulio amser.




Mae rhaglenni presennol a allai helpu cyllido a chyflawni buddsoddiad gan gynnwys y seilwaith digidol, cynllunio lle a rhaglenni sgiliau wedi'u darparu gan Gyngor Sir Powys neu raglen Trefi Clyfar Cymru. Mae'r ddwy raglen yn darparu cyfleoedd i ddysgu o arferion gorau a rhannu adnoddau â lleoedd eraill sy'n mabwysiadu'r ymagwedd Trefi Clyfar.

→ Cynhyrchu data agos amser go iawn a lleol iawn a defnyddio'r rhain i gymryd penderfyniadau wedi'u gyrru gan ddata am reoli lle gan ddefnyddio seilwaith digidol newydd a phresennol. Er enghraifft:

- Gallai synwyryddion neu system Wi-Fi gyhoeddus fonitro sŵn traed yng nghanol y dref, gan ddarparu data i ffurfio cais am gyllid neu gynlluniau busnes.
- Gallai synwyryddion gael eu defnyddio i helpu monitro cyflwr pridd a gwlybaniaeth blychau plannu stryd a seilwaith gwyrdd arall. Gallai'r data hyn ffurfio amserlenni dyfrio ac felly o bosibl arbed arian a lleihau costau.

→ Archwilio ffyrdd y gellir defnyddio seilwaith digidol newydd i wella profiad ymwelydd o Dalgarth. Er enghraifft:

- Darparu Wi-Fi dibynadwy y gellir ymddiried ynddo am ddim mewn mannau cyhoeddus fel y Sgwâr i annog pobl i dreulio rhagor o amser ynddynt a defnyddio tudalen sblash y rhwydwaith i hyrwyddo digwyddiadau sy'n dod neu fusnesau lleol.
- Gall hysbysfwrdd digidol wedi'i osod mewn safle amlwg gael ei ddefnyddio i hyrwyddo digwyddiadau sy'n dod a busnesau lleol neu ddarparu gwybodaeth leol gyfredol.



Enghraifft hysbysfwrdd digidol yn hyrwyddo digwyddiad lleol

# Effaith Gosodiadau Gwyliau Canol y Dref



Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon am y diffyg rheolaeth a cholli adeiladau masnachol a phreswyl amlwg canol y dref i osodiadau gwyliau arddull 'Airbnb' a'r effaith mae'n ei chael ar fyw yng nghanol y dref a'r cartrefi lleol sydd ar gael. Mae'r Cynllun yn annog y sefyllfa i gael ei monitro ac os oes angen, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) i ddefnyddio ei bwerau presennol i'w gwneud yn angenrheidiol i ymgeisio am ganiatâd cynllunio i newyd defnydd o annedd i dŷ gwyliau.



# Sut i Wneud Sylw a Beth Sy'n Digwydd Nesaf?

Gellir cyflwyno sylwadau ar y Cynllun drafft gan ddefnyddio'r ffurflen sylwadau neu fap rhyngweithiol i bostio syniadau:

**powystowninvestmentplans.info/talgarth**

SCAN ME

Cynhelir digwyddiad galw i mewn yng nghanol y dref gan gynnig cyfle i gyfarfod â'r tîm a thrafod y Cynllun. Bydd manylion yn cael eu hysbysebu'n lleol.

Yn dilyn yr ymgynghoriadau ar y Cynllun drafft, adolygir pob sylw a dderbynnir a byddant yn cael eu trafod â'r rhanddeiliaid lleol cyn cytuno ar Gynllun terfynol. Bydd y Cynllun yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n disgrifio sut y gallai cynigion â chefnogaeth y gymuned ehangach gael eu dwyn ymlaen, eu cyllido ac o fewn pa amserlenni.